CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Annwen Morgan
Prif Weithredwr
Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Gofynnwch am - Please ask for:
☎ (01248) 752102
E-Bost-E-mail: vickyljones@ynysmon.gov.uk

Ein Cyf - Our Ref. AM/VLJ/SeneddPlant
Eich Cyf - Your Ref.

Jane Bryant
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Anfonwyd drwy ebost:- SeneddPlant@senedd.cymru

20 Ionawr, 2022

Annwyl Cadeirydd

Cydnabyddaf derbyn eich llythyr dyddiedig 17 Rhagfyr, 2021.

Gweler isod ymatebion i'r cwestiynau o fewn eich llythyr.

**Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau presenoldeb wythnosol, ond nid yw rhai grwpiau o blant y mae'r pandemig wedi effeithio'n arbennig o andwyol ar eu presenoldeb wedi'u cynnwys yn y data hyn.**

- Swyddog lles ynghlwm ym mhob Ysgol Uwchradd penodol a chlwstwr ysgolion cynradd
- Adroddiad wythnosol yn cael ei lunio o fas data ONE yn wythnosol.
- Ysgolion wedi eu hannog i drafod unrhyw fater o bryder yn fuan gyda'r swyddogion Lles er rhoi cefnogaeth a bod neges wedi rhaeadru gyda'r rhieni bod disgwyliad i unigolion o oed statudol Ysgol i fynychu.
- Ymweliadau cartref
- Ffocws ar les emosiynol yr unigolyn. Codi ymwybyddiaeth o faterion sydd wedi amlygu yn dilyn y cyfnodau clo, materion o fewn y cartref ac effaith hirfaith hunan ynysu ac ar angen i fynd i afael yn yr achosion yma.
- Trafodaethau rheolaidd yn aml asianteithiol er adnabod y gweithiwr allweddol er i beidio gorlethu drwy ymweliadau cartref, ( 1 swyddog yn cyd-lynu unrhyw ddarpariaeth gyda'r teulu)
- Adborth a thrafodaethau aml
- Cyd weithio gyda rhanddeiliaid er cynnig gwasanaeth ymestyn allan gyda'r nod o ail ymgysylltu y disgyblion sydd yn profi presenoldeb isel/gwan
- Addasiadau rhesymol i amserlen a hyn yn cael eu fonitro yn fisol

**Unrhyw ddata sydd gennych ynghylch nifer y disgyblion hyn yn ogystal â'u cyfraddau absenoldeb.**
26 o ddisgyblion sydd yn amlygu gyda chanran isel o ran presenoldeb mewn perthynas gyda'r pandemig.

**Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion**
Mae'r Gwasanaeth yn cynnig ystod o gefnogaeth i Lywodraethwyr ysgolion Ynys Môn, gan gynnwys hyfforddiant amrywiol i Lywodraethwyr sy'n berthnasol i'w rôl nhw a cyngor a chefnogaeth arbenigol ar faterion unigol e.e. sut i ddelio â cwyn, y broses gormodedd ayb. Rydym hefyd yn cydweithio â Consortiwm GwE sy'n darparu hyfforddiant 'cwricwlaidd/addysgol' i Lywodraethwyr e.e. hyfforddiant i Lywodraethwyr ar ofynion y Cwricwlwm i Gymru. Maent hefyd yn darparu sesiwn hyfforddiant/cefnogaeth a chyngor i Gyrff llywodraethol cyn arolwg Estyn. Bydd unrhyw hyfforddiant/cefnogaeth sydd yn cael ei hysbysu gan LlC/Estyn ayyb hefyd yn cael ei hysbysebu ac annog i pob corff llywodraethol

Yn gywir,

**Annwen Morgan**
**Prif Weithredwr**